



Protocol ar gyfer Neilltuo Materion i Gyfarfod Preifat o'r Bwrdd (a'r Pwyllgor)

Cyflwyniad

Yn unol â Rheolau Sefydlog (SOs) Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'r Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd Bwrdd ffurfiol yn gyhoeddus. Mae paragraff 7.5.2 o'r Rheolau Sefydlog yn darparu'r sail i'r Bwrdd gyfarfod a thrafod eitemau perthnasol yn breifat. Gelwir hyn weithiau yn 'gyfarfod Preifat o'r Bwrdd'. Y sail gyfreithiol ar gyfer y ddarpariaeth hon yw adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.

Bydd achlysuron pan fydd agweddau ar fusnes y sefydliad yn cael eu hystyried yn fwy priodol mewn sesiwn breifat. Mae hyn er mwyn osgoi niweidio budd y cyhoedd, yn ogystal ag osgoi niwed gormodol neu ddylanwad annheg ar y cyhoedd.

Mae'r Protocol hwn yn nodi'r rhesymeg a all fod yn berthnasol pan ystyrir deunydd mewn sesiwn breifat. Dylai ystyriaeth breifat fod yn eithriad; dylai trafodaeth gyhoeddus barhau i fod yn ddiofyn oni bai bod rhesymeg glir a phriodol yn berthnasol.

Gwerthoedd a Thryloywder Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ein gwerthoedd yw **'cydweithio, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth'**. Mae'r Bwrdd yn gweithredu ar y sail bod tryloywder a diffuantrwydd yn ganolog i'w ddull llywodraethu a gwneud penderfyniadau. Dylai aelodau'r Bwrdd drafod materion yng nghyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd oni bai bod rheswm penodol a chyfiawn dros beidio â gwneud hynny.

Ffactorau i'w hystyried wrth neilltuo mater ar gyfer cyfarfod Preifat o'r Bwrdd.

Wrth benderfynu a ddylid cadw mater ar gyfer agenda Preifat y Bwrdd, dylid ystyried y ffactorau canlynol:

- A yw'r eitem neu'r deunydd cysylltiedig yn cynnwys data personol?
- A yw'r eitem yn gyfrinachol neu'n sensitif yn fasnachol?
- A allai datgeliad danseilio hyder y cyhoedd, achosi pryder gormodol, neu niweidio'r cyhoedd o bosibl?
- A oes materion enw da i'w hystyried ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru, unigolion, partneriaid neu randdeiliaid?
- A yw'r dogfennau ar ffurf drafft ac wedi'u bwriadu ar gyfer eu cyhoeddi yn y dyfodol?



- A yw'r eitem yn cynnwys cyngor cyfreithiol, a yw'n gyfreithiol gyfrinachol neu a yw'n destun braint gyfreithiol;
- A allai datgeliad fod yn niweidiol i gynnal materion?
- A yw datgelu'r mater yn gyfyngedig gan y gyfraith?

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ond mae'n rhoi enghreifftiau o ystyriaethau allweddol. Gall y Bwrdd ystyried papurau ar ffurf drafft mewn sesiwn breifat cyn derbyn y fersiwn derfynol mewn cyfarfod a gynhelir yn gyhoeddus.

Dylid defnyddio'r categorïau canlynol i gofnodi'r rhesymeg dros bob eitem ar yr agenda sydd wedi'i chynnwys yng nghofnodion y Bwrdd Preifat:

- Sensitif yn Fasnachol – caffael
- Cyfrinachol – llywodraethu gwybodaeth (gan gynnwys data personol)
- Cyfrinachol – seiberddiogelwch
- Cyfrinachol – gweithlu
- Â braint gyfreithiol
- Crynodeb o gyfarfodydd Pwyllgor neu Is-grŵp Preifat – pwnc cyfrinachol
- Pryder neu niwed amhriodol i'r cyhoedd - diweddariad Diogelu Iechyd
- Adroddiad drafft – i'w gyhoeddi'n ddiweddarach

Rheoli cyfarfodydd preifat y Bwrdd

Pan fydd y Bwrdd yn dod ynghyd ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol, mae agenda cyhoeddus y Bwrdd yn nodi'r rhan fwyaf o'r busnes sy'n cael ei ystyried. Bydd papurau'r Bwrdd yn cynnwys sail resymegol ffurfiol dros ystyried unrhyw eitem mewn sesiwn breifat. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi'r agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd Cyhoeddus a Phreifat ar ei wefan.

Mae'n bosibl y bydd adegau pan fydd angen i'r Bwrdd ymgynnull mewn sesiwn breifat, heb rybudd cyhoeddus, i ystyried busnes brys sy'n gysylltiedig â'i rolau cyfreithiol a statudol.

Penderfyniad i ystyried eitemau mewn sesiwn breifat

Y Cadeirydd, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr, sy'n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid trafod mater mewn sesiwn breifat neu gyhoeddus. Mae'r penderfyniad hwn wedi'i lywio gan gyngor gan Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd a'r Prif Swyddog Gweithredol, yn unol â'r Protocol hwn. Gall y Cadeirydd hefyd geisio cyngor gan aelodau eraill o staff neu gynghorwyr proffesiynol, gan gynnwys y Prif Swyddog Risg a Swyddog Diogelu Data dynodedig y sefydliad.

Adrodd ar eitemau a ystyriwyd mewn sesiwn breifat

Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn cynhyrchu adroddiad cryno o unrhyw eitemau a ystyriwyd mewn sesiwn breifat ac yn ei gynnwys ar yr agenda ar gyfer cyfarfod



nesaf y Bwrdd a gynhelir yn gyhoeddus. Bydd hyn hefyd yn cynnwys unrhyw eitemau a gylchredir i'r Bwrdd y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol, gan gynnwys nodiadau briffio a gwybodaeth arall.

Adolygu'r Protocol hwn ac adborth

Bydd y Bwrdd yn adolygu'r Protocol hwn yn flynyddol, i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y sefydliad ac yn parhau i fod yn gyson ag ysbryd y Rheoliadau a'r Rheolau Sefydlog. Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cadw cofnod o'r eitemau a ystyriwyd mewn sesiwn breifat ac yn cynhyrchu dadansoddiad i lywio'r adolygiad blynyddol.

Rydym yn croesawu adborth am y Protocol hwn ac yn hapus i ymateb i unrhyw ymholiadau cysylltiedig. Anfonwch e-bost at Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd yn [PHW Board.Business@wales.nhs.uk](mailto:PHW_Board.Business@wales.nhs.uk).